# *Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol

Astudiaeth Achos 8

## Gwybodaeth

**Ysgol Uwchradd y Rhyl, Sir Ddinbych**

1200 o Ddysgwyr

37% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Hyrwyddo'r Grant Hanfodion Ysgol
- ✓ Ailgylchu
- ✓ Ymgynghori â'r disgyblion, y rhieni a'r gofalwyr, y staff a'r Llywodraethwyr ynghylch y wisg ysgol

## Yr Angen a Amlygwyd

Trwy ein gwaith parhaus gyda Plant yng Nghymru ynghylch Taclo Effaith Tlodi ar Addysg, amlygwyd bod angen i ni adolygu ein gwisg ysgol yn sgîl yr argyfwng costau byw. Gwelsom fod angen adolygu cost-effeithiolrwydd y wisg, gan wrando ar bryderon disgyblion a rhieni a defnyddio canllawiau ymgynghoriad gwisg ysgol Llywodraeth Cymru.

## Cost y newid

Dim cost i'r ysgol o wneud siaced ffurfiol yr ysgol yn ddewisol yn hytrach nag yn orfodol. Bu'n rhaid ystyried amserlenni'r cyflenwyr cyn cyflwyno archebion y flwyddyn ganlynol.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Y camau a gymerir

- ✓ Cynhaliwyd **trafodaethau cychwynnol** yn yr ysgol gyda'r disgyblion, y rhieni/gofalwyr a'r Uwch-arweinwyr ynghyd â digwyddiadau ailgylchu gwisg ysgol blynyddol ar ddiwedd tymor yr haf 22/23
- ✓ **Ymgynghoriad llawn ynghylch y wisg ysgol** rhwng Medi a Rhagfyr 2023 yn cynnwys:
  - Defnyddio pecyn cymorth Taclo Effaith Tlodi ar Addysg ac **adnoddau** ar y cyd i helpu i ddatblygu prif ffocws yr ymgynghoriad
  - **Gweithdai ar gyfer y dysgwyr**
  - **Y cyngor ysgol a gweithgor** yn datblygu **arolwg ysgol gyfan** trwy addasu **cwestiynau ymgynghoriad ysgol LlC** ar gyfer anghenion yr ysgol a'r prif bryderon oedd gan y disgyblion
  - Datblygu'r **arolwg rhieni/gofalwyr** ymhellach

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Ysgol – disgyblion, staff a llywodraethwyr
- ✓ Rhieni a gofalwyr

**Ysgol:** Gweithdai'r dysgwyr, y Cyngor Ysgol a gweithgor o ddisgyblion a fu'n helpu i ddatblygu prif ffocws yr ymgynghoriad.

**Rhieni / Gofalwyr:** Grwpiau ffocws i ddechrau cyn anfon arolwg ehangach at bawb

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ Bu'r ymgynghoriad yn **gyfle cadarnhaol i wrando** ar bryderon y disgyblion, y rhieni/gofalwyr, y staff a'r Llywodraethwyr
- ✓ **Mwy o ymgysylltu** â'r disgyblion a'r rhieni/gofalwyr ynghylch effaith tlodi ar hyn o bryd
- ✓ **Roedd y disgyblion wedi mwynhau eu rôl allweddol** yn gwneud penderfyniad pwysig ac ystyrlon ynghylch yr ysgol
- ✓ **Gwell dealltwriaeth** o bryderon ariannol o ran prynu gwisg ysgol a fu'n fodd i wneud addasiad rhesymol i'r polisi gwisg ysgol
- ✓ **Rhagor o bwyslais ar y cymorth** sydd ar gael yn yr ysgol a chyfleoedd cyllido gan LlC
- ✓ **Rydyn ni'n gobeithio sicrhau mwy o ymgysylltiad** â'r newidiadau a argymhellwyd o fis Medi 2024 ymlaen

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Fe wnaethon ni ganiatáu i'r holl randdeiliaid ddweud eu dweud a chael eu gwrando mewn perthynas â gwisg ysgol ac effaith tlodi ar addysg.

## Cyngor i ysgolion eraill

Grymuso'r bobl ifanc trwy eu cynnwys yn y broses o'r cychwyn cyntaf, rhoi llais iddyn nhw a gwrando ar eu barn ar y mater.

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu: je@rhylhigh.co.uk